
# PROFIAD Y PRENTIS

*Pobl a Datblygu Sefydliadol*



## Millie Tottle

**Prentis**

**2020-2021**

---

**Fe astudiodd Diploma Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes (Hyfforddiant ACT)**

Prentisiaethau Apprenticeships

"Dechreuais ar fy siwrnai prentisiaeth ym mis Ebrill 2021. Cwblheais i Ddiploma Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes. Rwy'n hoff o ddysgu gan ddefnyddio ddull mwy ymarferol, a dyna pam roeddwn i wrth fy modd gyda'r cyfuniad o waith ymarferol yn ogystal â chwrdd â fy nhiwtor unwaith y mis i ganolbwyntio ar waith theori fy mhrentisiaeth.


Enillais lawer iawn o brofiad mewn cyfnod byr a datblygais fy sgiliau rhyngbersonol a rheoli amser yn sylweddol. Drwy gwblhau fy mhrentisiaeth cefais gyfle i ddysgu'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i mi wneud cais am swydd wag yn yr adran Pobl a Datblygu Sefydliadol, a bues i'n llwyddiannus yn hynny o beth.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y dyfodol a'm gyrfa yn yr adran Pobl a Datblygu Sefydliadol. Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried y llwybr prentisiaeth i fynd amdano!"

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaetha Shared Services Partnership

# PROFIAD Y PRENTIS

*Pobl a Datblygu Sefydliadol*



## Ellie Morgan

**Prentis**

**2019-2020**

---

**Fe astudiodd Diploma Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes (Hyfforddiant ACT)**

Prentisiaethau Apprenticeships

"Roeddwn i'n hynod gyffrous i ddechrau fy mhrentisiaeth gan fy mod yn teimlo y byddai'n brofiad amhrisiadwy ac yn gyfle i ennill cymhwyster cydnabyddedig tra hefyd yn gweithio'n llawn amser ym maes AD. Roedd fy nyletswyddau a chyfrifoldebau yn cynnwys cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd, sicrhau bod nodiadau camau gweithredu cywir yn cael eu dosbarthu i gydweithwyr, gweinyddu cyrsiau, trefnu a chynnal systemau ffeilio, cydlynu sesiynau gwerthuso hyfforddiant a rheoli cofnodion hyfforddiant prentisiaeth.

Drwy gydol fy mhrentisiaeth, datblygais amrywiaeth o sgiliau gwahanol sydd wir wedi fy helpu i ddatblygu gyrfa mewn AD. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau cyfathrebu, cymdeithasol, trefnu a rheoli amser. Roedd elfen NVQ y rhaglen yn cynnwys gwneud aseiniadau i gwblhau modiwlau a oedd yn seiliedig ar waith a gweithio'n llawn amser fel prentis i'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol. Roeddwn yn cyfarfod bob 4 wythnos â fy aseswr NVQ i drafod cynnydd a chyflwyno tystiolaeth i fodloni meini prawf y modiwl. Cefais gefnogaeth lawn gan fy nghydweithwyr o fewn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol a oedd bob amser ar gael i helpu os oeddwn yn ansicr o unrhyw beth.

Ar ôl cwblhau fy mhrentisiaeth yn 2020, cefais swydd barhaol yn y Tîm Cyflogwr Arweiniol Sengl.

Yn 2022, llwyddais i gael fy mhenodi'n Bartner Busnes Cyswllt Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan gefnogi a hyfforddi rheolwyr llinell gyda chysylltiadau gweithwyr, absenoldeb salwch a recriwtio. Rwy'n mwynhau fy swydd yn fawr ac mae gennyf dîm cefnogol iawn o'm cwmpas. Rwy'n gobeithio aros gyda PCGC am amser hir ac ehangu fy sgiliau yng ngwahanol feysydd AD."

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaetha Shared Services Partnership